

Mae Cyngor Tref Penarth wedi cymeradwyo cyllideb ar gyfer 2017/2018 sy'n adlewyrchu ei nodau ac amcanion uchelgeisiol dros y pum mlynedd nesaf.

Cafodd cynnydd o 4.97% ar braesept y flwyddyn flaenorol sêl bendith Cyngor Tref Penarth er mwyn eu galluogi i gyflawni rhaglen uchelgeisiol o amcanion i sicrhau fod y dref yn lle llewyrchus a ffyniannus i fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Tref Penarth yn rheoli tri adeilad gyda'u tir, mynwent a thri safle Canolfan Hamdden.

Yn ddiweddar bu'r Cyngor yn ailstrwythuro staff er mwyn sicrhau fod y gweithlu'n barod i'r dyfodol ac i baratoi gogyfer a chyfrifoldebau ychwanegol o dan raglen o ailffurfio gwasanaethau lleol. Mae gan y tîm newydd sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor Tref yr arbenigedd, yr wybodaeth a'r gallu i gyflwyno gwasanaethau newydd a chyffrous. Bydd y rhain yn rhoi gwedd newydd ar ddigwyddiadau traddodiadol, yn cynnig cyfleoedd i wneud y mwyaf o leoliadau a chyfleusterau a bydd lle i ystyried prosiectau newydd nad yw'r Cyngor Tref wedi'u hystyried o'r blaen.

Meddai Emma Boylan, Clerc y Dref, "Mae'r Sector Cymunedau Tref a Chymuned yn gyrru i mewn i diriogaethau newydd yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Cyngor Tref Penarth yn arwain y ffordd fel un o'r pedwar prif gyngor tref ym Mro Morgannwg wrth iddo ddatblygu ei nodau a'i amcanion ar gyfer y dyfodol. Drwy adeiladu ar waith y weinyddiaeth bresennol ac yn dilyn ymarfer siapio a chwmpasu i osod allan ei gynlluniau am y pum mlynedd nesaf, gosod ei gyllideb flynyddol a chyhoeddi ei Weledigaethau, Nodau ac Amcanion, mae'r Cyngor ar fin gallu gweithio hyd yn oed yn nes at ei gymuned, ystyried prosiectau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol a sicrhau enw Penarth fel tref hyd yn oed yn fwy llwyddiannus, bywiog a gwydn."

O dan Weledigaethau, Nodau ac Amcanion 2017-2022, bydd Cyngor y Dref yn rhoi sylw i'r canlynol;

- Gwella tir y cyhoedd
- Cynyddu lles ymhlith y gymuned
- Cynyddu cyfranogiad y gymuned drwy ddigwyddiadau, ymgynghori, cyhoeddusrwydd a marchnata
- Datblygu ac adfer yr adeiladau o dan ei reolaeth i gael mwy o bobl i'w defnyddio a chreu incwm

Ceir dadansoddiad manwl o'r gweledigaethau, y nodau a'r amcanion yn y ddogfen nodau ac amcanion ganlynol: [Penarth Town Council Aims and Objectives 2017 - 2022](#). *Ymddiheurwn nad oes fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon ar gael.*